



POLISI ASTHMA

Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

NOD

Mae'r cylch yn anelu at gynnig cyfle i bob plentyn sy'n dioddef o asthma elwa o brofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyd a'i gyfoedion.

EGWYDDOR

Mae'r cylch yn cydnabod bod asthma yn gyflwr cyffredin a difrifol, ond y gellir ei reoli. Mae'n croesawu pob plentyn ag asthma i'r cylch.

COD YMARFER

Bydd y cylch yn:

- rhoi cyfle i bob plentyn ag asthma gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r cylch.
- sicrhau bod holl amgylchedd y cylch, gan gynnwys yr amgylchedd ffisegol, cymdeithasol, addysgol a'r gweithgareddau yn addas i blant ag asthma, e.e. yn enwedig wrth ymdrin ag anifeiliaid anwes. Os bydd newid i'r amylchedd e.e anifail anwes yn ymweld â'r cylch yna mi fydd yr arweinydd yn cysylltu gyda rhiant yr rai â asthma i'w hysbysu.
- holi'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid am symptomau asthma eu plant, sut y gellir adnabod fod symptomau yn ymddangos neu yn gwaethygu a beth sy'n debygol o achosi pwl o asthma. Dylid hefyd holi sut i gynorthwyo'r plentyn i gymryd y moddion lliniaru, e.e. os yw'r plentyn yn defnyddio gwahanwyr (spacers) - dyfeisiadau sydd eu hangen ar rai plant er mwyn cymryd y moddion lliniaru. Dylid sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r wybodaeth a roddir gan y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.
- cadw cofnod penodol o bob plentyn ag asthma a'r moddion y mae yn ei gymryd ynghyd â chofnod o'r arweiniad a roddir gan rieni. Dylid diweddarau'r cofnod yn rheolaidd. Sicrhau bod moddion lliniaru o fewn eu dyddiad terfyn
- sicrhau bod **pob** aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant addas ar y dull cywir o roi'r moddion gan y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, neu, os oes angen, gan feddyg neu berson cymwys arall. Dylid tystio hyn ar ffurflen MI a sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei ddiweddarau unwaith y flwyddyn.
- deall bod pob plentyn ag asthma angen cymorth yn ddiymdroi i allu defnyddio anadlyddion lliniaru bob amser. O'r herwydd ni ddylai'r anadlyddion lliniaru gael eu cadw dan glo, a dylai **pob** aelod o staff wybod ym mhle y cedwir hwy.
- sicrhau bod gan y cylch foddion, anadlydd lliniaru a gwahanwr sbâr wedi eu labelu ar gyfer pob plentyn unigol sydd eu hangen. Rhaid i'r rhiant/gofalwr/gwarcheidwad labelu pob moddion, anadlydd a gwahanwr gydag enw'r plentyn arno.
- sicrhau bod pob aelod o staff y cylch yn ymwybodol o'r polisi hwn ynghyd â'r canllawiau ym Mholisi Iechyd, Diogelwch a Lles, ac yn y Canllaw Iechyd a Diogelwch ar gyfer Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.
- sicrhau bod rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yn cael gwybod bob tro y bydd plentyn wedi dangos symptomau asthma ac wedi gorfod defnyddio'i foddion lliniaru tra yn y cylch.



- gweithio mewn partneriaeth â holl staff y cylch, rheini/gofalwyr, meddygon a nyrsys, i sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu a'i gynnal yn llwyddiannus.